# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r asesiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**NODER: Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.  Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru Y Ddyletswyd Economaidd-gymdeithasol.**

NODER: Disodlwch unrhyw destun llwyd, mae yno i'ch arwain. Sicrhewch fod lliw'r ffont yn cael ei drosi i ddu am resymau hygyrchedd.

## 1. Manylion y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Andrea West/ Lisa Thomas | Sue Richards | Siapio Lle a Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Ebrill 2024 |

| **Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol. |
|---|
| Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Rhydri yn gostwng, trefnwyd amryw gyfarfodydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.  Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025.<br><br>Mae'r cynnig yn ymwneud â chau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025, yn dilyn cais i ymgynghori gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol a wnaed yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024. |

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

**Gwybodaeth Gefndir**

Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 91 o leoedd, gyda nifer derbyn cyhoeddedig o 13.

Ym mis Chwefror 2014, cafodd yr ysgol ei hannog i gydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas er mwyn symud allan o fesurau arbennig ac i gefnogi ei rhagolwg ariannol. Yn sgil gweithredu hyn yn llwyddiannus, a arweiniodd at gynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion a symud allan o fesurau arbennig, sefydlwyd Ffederasiwn Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhydri ac Ysgol Iau Bedwas yn ffurfiol ym mis Medi 2019.

Fodd bynnag, fe wnaeth y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu gydnabod bod Ysgol Gynradd Rhydri yn wynebu diffyg ariannol sylweddol, gyda rhagamcan y byddai niferoedd y disgyblion yn gostwng ymhellach yn y dyfodol ac wnaethant droi at yr Awdurdod Lleol i gydweithio er mwyn edrych ar bob ateb posibl a modelau ariannol amrywiol i archwilio’r senarios adfer posibl.
O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, penderfynir ar gyllidebau ysgolion unigol gan ddefnyddio fformiwla gyllido y cytunir arni’n lleol yn unol â ffactorau sy’n cael eu harwain gan y dysgwyr. Mae’n rhaid i ysgolion allu dangos, trwy gynllun gweithredu ariannol, y bydd yr ysgol yn gweithio i gyflwyno cyllideb gytbwys.

Yn haf 2023, y cyngor oedd gostwng o 3 dosbarth i 2 ddosbarth er mwyn gwneud y mwyaf o’r amser sydd ar gael i’r ysgol adfer ei sefyllfa ariannol. Roedd y cyngor hwn wedi’i seilio ar gynseiliau llwyddiannus mewn awdurdodau lleol eraill a gweithio’n agos gyda’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Ar y pryd, pleidleisiodd y Corff Llywodraethu o blaid y cynnig, fel y gwnaeth y staff yr effeithiwyd arnynt. Roedd y pwyslais ar estyn hyfywedd yr ysgol a lleihau’r effaith ar blant a’r addysg a gyflwynir.

Fodd bynnag, oherwydd pryderon a godwyd gan rieni, cafodd y penderfyniad ei wyrdroi gan y Corff Llywodraethol gan arwain at gadw 3 dosbarth yn yr ysgol a mynd ar drywydd disgyblion ychwanegol trwy ymgyrch farchnata ragweithiol a gynlluniwyd i gynyddu niferoedd disgyblion.

Wrth ystyried yr opsiwn gwahanol hwn, roedd yr Awdurdod Lleol wedi mynegi’n glir i Lywodraethwyr y posibilrwydd na fyddai gan yr ysgol unrhyw opsiwn ond cau, os na fyddai niferoedd y disgyblion yn cynyddu’n sylweddol erbyn gwanwyn 2024. Yn y pen draw, roedd y Corff Llywodraethu o blaid awydd y rhieni i gadw 3 dosbarth ac yn erbyn cyngor yr Awdurdod Lleol, er gwaethaf risg cau’n gynt.

Er y nodwyd cynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion, yn ystod y cyfnod hwn, mae costau parhau â thair ystafell ddosbarth wedi parhau i gynyddu'r diffyg sy'n wynebu'r ysgol. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, adroddodd yr ysgol am ddiffyg o £22,000 yn y gyllideb ac, er gwaethaf torri'n ôl ym mhob maes a gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, mae'r ysgol wedi cyflwyno'i ffigurau ar gyfer 2024/2025, gyda diffyg o £175,000 yn y gyllideb. Pan mae ysgol yn rhoi gwybod am ddiffyg yn y gyllideb, mae'n rhaid iddi lunio cynllun gweithredu 3 blynedd a fydd yn adfer y gyllideb i warged. Er bod opsiwn i archwilio hyn dros gyfnod 5 mlynedd gyda chaniatâd gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lleol, hyd yn oed dros gyfnod o 5 mlynedd, nid yw'n bosibl i'r ysgol gyflawni gwarged.

Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Ar sail y niferoedd a ddisgwylir ar gyfer Medi 2024, bydd nifer y lleoedd dros ben yn 62% a disgwylir y byddant yn cynyddu yn y dyfodol gan fod disgwyl y bydd nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau byw yn yr ardal a dewis rhieni.

Archwiliwyd pob dewis rhesymol yn lle cau ac archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer amcanol y disgyblion a'r rhagolwg o ddiffyg ariannol o ganlyniad yn peri her sylweddol i allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais gan y Corff Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 i'r Awdurdod Lleol ystyried cau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2025 ac ymgymryd â'r Ymgynghoriad Statudol gofynnol.

***<u>Detholiad o Lythyr a ryddhawyd gan Ysgol Gynradd Rhydri (15.3.24)</u>***

*"Fe wnaeth ein Corff Llywodraethu gyfarfod neithiwr (nos Iau 14 Mawrth) i drafod dyfodol Ysgol Gynradd Rhydri ymhellach a, gyda thristwch, mae angen i mi roi gwybod i chi eu bod wedi gwneud y penderfyniad anodd i ddechrau proses ffurfiol i fynd ati i gau'r ysgol o fis Medi 2025."*

*"Rwy'n gwerthfawrogi bod hyn yn ganlyniad siomedig i gymuned gyfan yr ysgol, ond fel y gwyddoch, dros y blynyddoedd diwethaf, mae llai a llai o blant wedi bod yn dod i Ysgol Gynradd Rhydri. Trist dweud bod nifer y plant y disgwylir iddynt ddod i'r ysgol yn y dyfodol yn isel iawn hefyd, ac ar y cyd â chyfradd isel o enedigaethau a chynnydd mewn costau, cawn ein hunain mewn sefyllfa anodd iawn."*

*"Mae'r rhagolwg ariannol hwn yn destun cymaint o bryder fel nad oes dewis gan y Llywodraethwyr ond mynd ati i gau Ysgol Gynradd Rhydri ar ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2025)."*

**2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchodedig.

| [**Nodweddion Gwarchodedig**]() | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?** | **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(pobl o bob oedran)* | Negyddol<br>Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i dactylions rhwng 3 ac 11 oed ac Bydd cau'r ysgol yn golygu bod yn rhaid i'r disgyblion hyn fynychu darpariaeth addysgol amgen.<br><br>Niwtral<br>Mae safle Ysgol Gynradd St James 2.2 milltir o safle presennol Ysgol Gynradd Rhydri, a all arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref. Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. | Er mwyn sicrhau nad oes newid i'r dalgylch ar gyfer darpariaeth uwchradd, cynigir fod y dalgylch yn parhau yn nalgylch Ysgol Martin Sant.<br><br>I alluogi hyn, yr ysgol gynradd agosaf sydd â lleoedd ar gael i bob disgybl o Ysgol Gynradd Rhydri ar draws pob grŵp oedran, ac o fewn dalgylch Martin Sant, yw Ysgol Gynradd Sant Iago. Felly, pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. | • Nifer y Disgyblion Gwirioneddol<br>• Data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>• Bwrdd Iechyd Lleol – Data Genedigaethau Byw<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024<br>• Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall<br>• Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad<br>• Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd** *(pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor)* | Cadarnhaol<br>Mae Ysgol Gynradd St James yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbennig ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanego<br><br><br>Cadarnhaol<br>Wedi'i hadeiladu tua 1900 ac wedi'i lleoli yn Rhydri, mae'r ysgol yn gorchuddio cyfanswm o tua 0.1 Hectar, ac yn cynnwys 1 prif strwythur, 2 dros dro, Ystafell Staff a gofod Ymyrraeth, gyda gofod awyr agored cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm.<br><br>Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr o C, gradd Addasrwydd o D a chategori Tystysgrif Arddangos Ynni o G. O gymharu, mae gan Ysgol Gynradd Sant Iago, a gafodd adeilad newydd yn 2011, sgôr cyflwr C+ a gradd A ar gyfer addasrwydd, gydag C mewn Tystysgrif Ynni i'w Harddangos. | Not applicable<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. | • Strategaeth EOTAS – CBSC<br>• Arolygon Cyflwr |
| **Ailbennu Rhywedd** *(pobl y mae eu hunaniaeth neu eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |
| **Hil** *(pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |
| **Crefydd neu Gred** *(pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** *(menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain)* | Niwtral<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn berthnasol oherwydd bod cyfleusterau ysgol amgen ar gael yn y fwrdeistref ac yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnasol |

**3. Y Ddyletswydd Economiadd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)**

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

**Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:**

Aelwydydd ag un oedolyn
Cymuned y Lluoedd Arfog
Gofalwyr
Myfyrwyr
Pensiynwyr
Plant sy'n derbyn gofal
Pobl â lefel isel o lythrennedd/ rhifedd Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
Pobl ddigartref
Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC)
Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

| [Anfantais Economaidd-gymdeithasol]() | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel / Tlodi Incwm** *(methu fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)* | Bydd cau'r ysgol yn golygu bod yn rhaid i'r disgyblion hyn fynychu darpariaeth addysgol amgen.<br><br>Pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Mae safle Ysgol Gynradd St James 2.2 milltir o safle presennol Ysgol Gynradd Rhydri, a allai arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref.<br><br>Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig a chau Ysgol Gynradd Rhydri, byddai adeilad a safle presennol yr ysgol wedyn yn cael eu dosbarthu'n rhai sydd y tu hwnt i ofyniad addysgol ac yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Yna, byddai'r defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol yn destun cyfres lem o brofion i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli a byddem yn ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori. | Er mwyn sicrhau nad oes newid i'r dalgylch ar gyfer darpariaeth uwchradd, cynigir fod y dalgylch yn parhau yn nalgylch Ysgol Martin Sant.<br><br>I alluogi hyn, yr ysgol gynradd agosaf sydd â lleoedd ar gael i bob disgybl o Ysgol Gynradd Rhydri ar draws pob grŵp oedran, ac o fewn dalgylch Martin Sant, yw Ysgol Gynradd Sant Iago. Felly, pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. | Mae Ysgol Gynradd Rhydri wedi'i lleoli yn ardal Basn Caerffili ac mae'n ysgol sy'n bwydo Ysgol Gyfun Martin Sant.<br><br>Data Ysgolion Cyfagos<br><br>Pellter o Ysgol Gynradd Rhydri Ysgol Gynradd St James = 2.2 mil<br><br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 Deddf<br>• Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol<br>• Deddf Cydraddoldeb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol<br>• A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol<br>• Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) |
| **Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Mae safle Ysgol Gynradd St James 2.2 milltir o safle presennol Ysgol Gynradd Rhydri, a allai arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref.<br><br>Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli a byddem yn ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori. | Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. | Data Ysgolion Cyfagos<br><br>Pellter o Ysgol Gynradd Rhydri Ysgol Gynradd St James = 2.2 mil<br><br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 Deddf<br>• Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol<br>• A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol<br>• Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) |
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobïau ac ati)* | Ddim yn berthnasol oherwydd bod pob ysgol yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnaso | Ddim yn berthnaso |
| **Amddifadedd Ardal** *(lle mae rhywun yn byw (ardaloedd gwledig), lle mae rhywun yn gweithio (hygyrchedd* | Bydd cau'r ysgol yn golygu bod yn rhaid i'r disgyblion hyn fynychu darpariaeth addysgol amgen. | Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 | • Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?* | Pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni. | rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol.<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. | • Cyfrifiad 2021<br>• Cyfrifiad 2011 |
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Ddim yn berthnasol oherwydd bod pob ysgol yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill. | Ddim yn berthnaso | Ddim yn berthnaso |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol** *(Pa effaith gronnol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchodedig/ nodweddion gwarchodedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais)* | Ddim yn berthnasol oherwydd bod pob ysgol yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig penodol eraill.<br><br>Mae Ysgol Gynradd St James yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbennig ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanego | Ddim yn berthnaso | Ddim yn berthnaso |

**4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor**

(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?) *Cynllun Corfforaethol*

| | |
|---|---|
| **Amcan 1 - Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg** | Yn unol â'r cais i'r Awdurdod Lleol a'r llythyr a ryddhawyd gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Rhydri ; byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud â niferoedd gostyngol ac yn dileu'r pwysau ariannol sy'n ymwneud â darparu cyllideb gytbwys. Er y byddai hyn yn arwain at gau'r ysgol, mae addysg a lles disgyblion yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynnig hwn.<br><br>Pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Yddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol. |
| **Amcan 2 - Galluogi ein Preswylwyr i Ffynnu** | Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli a byddem yn ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori. |
| **Amcan 3 - Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu** | Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i dactylions rhwng 3 ac 11 oed ac Bydd cau'r ysgol yn golygu bod yn rhaid i'r disgyblion hyn fynychu darpariaeth addysgol amgen.<br><br>Pe bai'r Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Yddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol.<br><br>Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig a chau Ysgol Gynradd Rhydri, byddai adeilad a safle presennol yr ysgol wedyn yn cael eu dosbarthu'n rhai sydd y tu hwnt i ofyniad addysgol ac yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Yna, byddai'r defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol yn destun cyfres lem o brofion i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli a byddem yn ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori. |

| | |
|---|---|
| **Amcan 4 - Galluogi ein Heconomi i Dyfu** | Ddim yn berthnasol gan fod y cynnig yn gysylltiedig ag ysgol bresennol |
| **Amcan 5 - Galluogi ein Hamgylchedd i fod yn Wyrddach** | Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Asesir pob disgybl yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol gan y Mesur.<br><br>Wedi'i hadeiladu tua 1900 ac wedi'i lleoli yn Rhydri, mae'r ysgol yn gorchuddio cyfanswm o tua 0.1 Hectar, ac yn cynnwys 1 prif strwythur, 2 dros dro, Ystafell Staff a gofod Ymyrraeth, gyda gofod awyr agored cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm. Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr o C, gradd Addasrwydd o D a chategori Tystysgrif Arddangos Ynni o G. O gymharu, mae gan Ysgol Gynradd Sant Iago, a gafodd adeilad newydd yn 2011, sgôr cyflwr C+ a gradd A ar gyfer addasrwydd, gydag C mewn Tystysgrif Ynni i'w Harddangos. |

| **Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor**<br>*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)* |
|---|
| Strategaeth Addysg Awdurdod Lleol Caerffili (2022 – 2025) 'Dilyn Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd' Bydd y cynnig hwn yn gwireddu uchelgais y Cyngor i roi'r cyfleoedd bywyd gorau i bob dysgwr trwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel ar draws ein lleoliadau ysgol trawiadol ar gyfer yr 21ain Ganrif.<br><br>Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Rhydri yn gostwng, trefnwyd amryw gyfarfodydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.<br>Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025. |

**5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio**

(Gelwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

| Y Pum Ffordd o Weithio | Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig? |
|---|---|
| **Hirdymor** | Rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.<br><br>Mae'r cynnig hwn wedi'i ddwyn ymlaen ar gais Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Rhydri ar ôl cydnabod pryderon sy'n ymwneud â gostyngiad yn nifer y disgyblion a chyflawni cyllideb gytbwys. |
| **Atal** | Archwiliwyd pob opsiwn rhesymol yn lle cau:<br>• Cydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Chwefror 2014)<br>• Ffedereiddio ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Medi 2019)<br>• Argymhelliad gan yr Awdurdod Lleol yn gysylltiedig â gostwng nifer y dosbarthiadau o 3 i 2 (heb ei dderbyn)<br>• Ymgyrch farchnata gan rieni<br>• Arweiniad Ariannol yn gysylltiedig â chynllun adfer ariannol 3 blynedd i gyflawni cyllideb warged (nid yw'r Corff Llywodraethu'n gallu cyflawni cyllideb warged)<br><br>Yn ogystal, archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu ac a godwyd yn y Cabinet ar 24 Gorffennaf 2024, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, yr opsiwn i ymestyn i gynllun adfer ariannol 5 mlynedd, gyda chaniatâd y Swyddog Adran 151, ac ystyried darpariaeth ADY. |
| **Integreiddio** | • Cydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Chwefror 2014)<br>• Ffedereiddio ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Medi 2019) |
| **Cydweithio** | Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 91 o leoedd, gyda nifer derbyn cyhoeddedig o 13.<br><br>Ym mis Chwefror 2014, cafodd yr ysgol ei hannog i gydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas er mwyn symud allan o fesurau arbennig ac i gefnogi ei rhagolwg ariannol. Yn sgil gweithredu hyn yn llwyddiannus, a arweiniodd at gynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion a symud allan o fesurau arbennig, sefydlwyd Ffederasiwn Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhydri ac Ysgol Iau Bedwas yn ffurfiol ym mis Medi 2019. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, fe wnaeth y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gydnabod bod Ysgol Gynradd Rhydri yn wynebu diffyg ariannol sylweddol, gyda rhagamcan y byddai niferoedd y disgyblion yn gostwng ymhellach yn y dyfodol ac wnaethant droi at yr Awdurdod Lleol i gydweithio er mwyn edrych ar bob ateb posibl a modelau ariannol amrywiol i archwilio'r senarios adfer posibl.<br>O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, penderfynir ar gyllidebau ysgolion unigol gan ddefnyddio fformiwla gyllido y cytunir arni'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan y dysgwyr. Mae'n rhaid i ysgolion allu dangos, trwy gynllun gweithredu ariannol, y bydd yr ysgol yn gweithio i gyflwyno cyllideb gytbwys.<br><br>Yn haf 2023, y cyngor oedd gostwng o 3 dosbarth i 2 ddosbarth er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i'r ysgol adfer ei sefyllfa ariannol. Roedd y cyngor hwn wedi'i seilio ar gynseiliau llwyddiannus mewn awdurdodau lleol eraill a gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Ar y pryd, pleidleisiodd y Corff Llywodraethu o blaid y cynnig. Roedd y pwyslais ar estyn hyfywedd yr ysgol a lleihau'r effaith ar blant a'r addysg a gyflwynir.<br><br>Fodd bynnag, oherwydd pryderon a godwyd gan rieni, cafodd y penderfyniad ei wyrdroi gan y Corff Llywodraethol gan arwain at gadw 3 dosbarth yn yr ysgol a mynd ar drywydd disgyblion ychwanegol trwy ymgyrch farchnata ragweithiol a gynlluniwyd i gynyddu niferoedd disgyblion.<br><br>Wrth ystyried yr opsiwn gwahanol hwn, roedd yr Awdurdod Lleol wedi mynegi'n glir i Lywodraethwyr y posibilrwydd na fyddai gan yr ysgol unrhyw opsiwn ond cau, os na fyddai niferoedd y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol erbyn gwanwyn 2024. Yn y pen draw, roedd y Corff Llywodraethu o blaid awydd y rhieni i gadw 3 dosbarth ac yn erbyn cyngor yr Awdurdod Lleol, er gwaethaf risg cau'n gynt.<br><br>Er y nodwyd cynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion, yn ystod y cyfnod hwn, mae costau parhau â thair ystafell ddosbarth wedi parhau i gynyddu'r diffyg sy'n wynebu'r ysgol. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, adroddodd yr ysgol am ddiffyg o £22,000 yn y gyllideb ac, er gwaethaf torri'n ôl ym mhob maes a gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, mae'r ysgol wedi cyflwyno'i ffigurau ar gyfer 2024/2025, gyda diffyg o £175,000 yn y gyllideb. Pan mae ysgol yn rhoi gwybod am ddiffyg yn y gyllideb, mae'n rhaid iddi lunio cynllun gweithredu 3 blynedd a fydd yn adfer y gyllideb i warged. Er bod opsiwn i archwilio hyn dros gyfnod 5 mlynedd gyda chaniatâd gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lleol, hyd yn oed dros gyfnod o 5 mlynedd, nid yw'n bosibl i'r ysgol gyflawni gwarged.<br>Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Ar sail y niferoedd a ddisgwylir ar gyfer Medi 2024, bydd nifer y lleoedd dros ben yn 62% a disgwylir y byddant yn cynyddu |

| | |
|---|---|
| | yn y dyfodol gan fod disgwyl y bydd nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau byw yn yr ardal a dewis rhieni.<br><br>Archwiliwyd pob dewis rhesymol yn lle cau ac archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer amcanol y disgyblion a'r rhagolwg o ddiffyg ariannol o ganlyniad yn peri her sylweddol i allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais gan y Corff Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 i'r Awdurdod Lleol ystyried cau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2025 ac ymgymryd â'r Ymgynghoriad Statudol gofynnol. |
| **Cynnwys** | Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Rhydri yn gostwng, trefnwyd amryw gyfarfodydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025.<br><br>Yddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol. Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhydri yn cael ei ddirwyn i ben pan fydd yr ysgol yn cau.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Rhydri wedi'i ffedereiddio gydag Ysgol Iau Bedwas ac mae'r ffederasiwn wedi'i sefydlu ers mis Chwefror 2019 ar ôl cyfnod llwyddiannus o gydweithredu. Yn amodol ar gymeradwyo'r cau, bydd y ffederasiwn yn dod i ben yn awtomatig a bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Iau Bedwas i sicrhau bod unrhyw brosesau statudol a chymorth yn cael eu dilyn. |

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nodau Llesiant | A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas* | Mae'r cynnig yn ymwneud â chau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025, yn dilyn cais i ymgynghori gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol a wnaed yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024.<br><br>Yddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol.<br><br>Ar sail nifer presennol y disgyblion, a'r ganran fawr o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Rhydri sy'n byw'r tu allan i'w dalgylch, rhagwelir mai bach iawn o effaith fydd ar unrhyw rai o'r ysgolion cyfagos.<br><br>Mae gan ddalgylch newydd arfaethedig Ysgol Gynradd Sant Iago ddigon o leoedd i dderbyn yr holl ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Rhydri ar hyn o bryd, yn amodol ar ddewis rhieni, a bydd yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn symud ymlaen yn naturiol i ddarpariaeth uwchradd, yn amodol ar ddewis rhieni. |
| **Cymru gydnerth**<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)* | Mae'r cynnig yn ymwneud â chau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025, yn dilyn cais i ymgynghori gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol a wnaed yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Rhydri wedi'i lleoli yn ardal Basn Caerffili ac mae'n ysgol sy'n bwydo Ysgol Gyfun Martin Sant.<br>Er mwyn sicrhau nad oes newid i'r dalgylch ar gyfer darpariaeth uwchradd, cynigir fod y dalgylch yn parhau yn nalgylch Ysgol Martin Sant.<br><br>I alluogi hyn, yr ysgol gynradd agosaf sydd â lleoedd ar gael i bob disgybl o Ysgol Gynradd Rhydri ar draws pob grŵp oedran, ac o fewn dalgylch Martin Sant, yw Ysgol Gynradd Sant Iago. Felly, pe bai'r |

| | |
|---|---|
| | Cabinet yn cytuno i'r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.<br><br>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor. |
| **Cymru iachach**<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | Rhaid i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.<br><br>Mae'r cynnig hwn wedi'i ddwyn ymlaen ar gais Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Rhydri ar ôl cydnabod pryderon sy'n ymwneud â gostyngiad yn nifer y disgyblion a chyflawni cyllideb gytbwys. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)* | Bydd disgyblion sydd ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd yn cael y cyfleoedd pontio arferol i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn Ysgol Uwchradd Sant Martin neu rywle arall. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd, cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin perthynas wedi'u cynllunio ymlaen llaw gyda chyfoedion ar draws clwstwr Sant Martin. Bydd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal rhwng ysgolion i hyrwyddo parhad dysgu a sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu yn y lleoliad newydd. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn monitro sefydlu a chynnydd y grŵp hwn o ddisgyblion.<br><br>Yn yr un modd, bydd trefniadau pontio cadarn yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion sy'n symud i ysgol gynradd arall. Bydd uwch arweinwyr Ysgol Gynradd St James yn cyfarfod yn fisol â'r Awdurdod Lleol drwy gydol 2024-25 i ystyried cynnydd yn erbyn argymhellion Arolygiad Estyn diweddar. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn nodi integreiddio disgyblion Ysgol Gynradd Rhydri i'w lleoliad newydd, gan nodi unrhyw gymorth pellach y gallai fod ei angen ar yr ysgol. Bydd disgyblion sy'n symud i ysgolion cynradd eraill yn destun y trefniadau |

| | |
|---|---|
| | pontio arferol rhwng ysgolion. Fel yr uchod, cynhelir trafodaeth rhwng ysgolion i hyrwyddo parhad dysgu a chodi ymwybyddiaeth o anghenion unigol. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>*Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da* | Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn gweithio gyda rhieni i gefnogi'r pontio i ysgol newydd.<br><br>Gan mai'r cynnig hwn yw cau ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025, ni fydd effaith ar ddarparu addysg yn ystod y flwyddyn ysgol.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Uwchradd St Martins ac mae dyraniad arfaethedig Ysgol Gynradd St James hefyd yn ysgol fwydo ar gyfer St Martins.. Felly, ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ymddangosiadol ar y trefniant presennol ar lefel Uwchradd. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden* | Rhoddir ystyriaeth i Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi'r darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae cyllidebau ysgolion unigol yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla ariannu wedi'i chytuno'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Rhaid i ysgolion allu dangos drwy gynllun gweithredu ariannol y bydd yr ysgol yn mynd ati i sicrhau cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu wedi cydnabod bod Ysgol Gynradd Rhydri yn wynebu diffyg ariannol sylweddol gyda disgwyl i nifer y disgyblion leihau ymhellach.<br><br>Bydd y cynnig, os cytunir arno, yn arwain at gau Ysgol Babanod Cwm Glas sydd wedi'i hadnabod fel un nad yw bellach yn ariannol hyfyw i'w gweithredu gan y Corff Llywodraethol. |

| | |
|---|---|
| | Bydd darpariaeth gymunedol yn parhau i weithredu o ysgolion / lleoliadau cyfagos a bydd defnydd pellach yn cael ei annog a fydd yn cynnwys y cyfle i deuluoedd ddysgu/cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gan gynnwys y Gymraeg lle nad yw hyn wedi'i sefydlu eisoes |

**7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg**

(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg) *Safonau Llunio Polisi – Dogfen Gyngor Arferion Da*

| Gofyniad | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e y CSCA, TAN20, CDLl, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 a Phroffil iaith BSC** | Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd. | Rhoddir ystyriaeth i'r Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. | Ddim yn berthnasol |
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.** *Safonau 88–93 yn benodol* | Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n | Bydd y broses yn ystod y cyfnod Ymgynghori a'r cyfnod Gwrthwynebu yn sicrhau bod ymgynghoreion allweddol yn cael eu targedu fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn | Prosesau Ymgynghori Hanesyddol sy'n cynnwys arwyddion dwyieithog fel safon ar draws holl gyfleusterau'r Cyngor i ddiogelu adeiladau at y dyfodol a rhoi lle amlwg cynyddol i'r Gymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cefnogi ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ac yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Gellir anfon a derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | darparu cyfleoedd i ymateb yn newis iaith ymatebwyr - Cymraeg neu Saesneg.<br><br>Yn ogystal, ymgynghorir ar farn plant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw trwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu a chynhyrchu fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant sydd hefyd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** *e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned* | Ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y cwricwlwm Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd. | Rhoddir ystyriaeth i'r Addysg Gymraeg: Papur Gwyn i gyfoethogi darpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydyn nhw eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig. | Bydd yr holl ddogfennaeth a gyhoeddir ar wefan Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu sy'n ymwneud â'r cynnig yn cael ei chyfieithu drwy Dîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg y Cyngor. |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr** | Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | Gellir darparu ar gais unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darpariaeth addysg trwy ddewis iaith y plentyn/teulu a'r hawl sydd ganddyn nhw i hyn o dan Fesur y Gymraeg.<br><br>Cynhyrchir yr holl ddogfennaeth gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ddim yn berthnasol | Gweithgareddau Ymgysylltu Hanesyddol a gyflawnwyd drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor. |

| **Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
|---|
| Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu wedi gofyn am gau'r ysgol oherwydd bod niferoedd yn gostwng a phroblemau gyda hyfywedd ariannol. Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar ddarpariaeth y cwricwlwm Cymraeg i ddisgyblion o'i gymharu â'r cynnig presennol, ac eithrio'r ddarpariaeth hon yn unig a gaiff ei chyflwyno drwy ysgol gynradd arall y mae ei lleoliad yn dibynnu ar ddewis y rhieni.<br><br>Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae potensial i ehangu mynediad i gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael eu harchwilio os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.<br><br>Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw'r broses ragnodedig ar gyfer symud y cynnig hwn yn ei flaen. |

## 8. Data a Gwybodaeth

(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)

| Data/tystiolaeth<br>(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol) | Canfyddiadau perthnasol allweddol | Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn? |
|---|---|---|
| Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 91 o leoedd, gyda nifer derbyn cyhoeddedig o 13.<br><br>Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Ar sail y niferoedd a ddisgwylir ar gyfer Medi 2024, bydd nifer y lleoedd dros ben yn 62% a disgwylir y byddant yn cynyddu yn y dyfodol gan fod disgwyl y bydd nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau byw yn yr ardal a dewis rhieni.<br><br>• Cydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Chwefror 2014)<br>• Ffedereiddio ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Medi 2019)<br>• Argymhelliad gan yr Awdurdod Lleol yn gysylltiedig â gostwng nifer y dosbarthiadau o 3 i 2 (heb ei dderbyn)<br>• Ymgyrch farchnata gan rieni<br>• Arweiniad Ariannol yn gysylltiedig â chynllun adfer ariannol 3 blynedd i gyflawni cyllideb warged | Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, adroddodd yr ysgol am ddiffyg o £22,000 yn y gyllideb ac, er gwaethaf torri'n ôl ym mhob maes a gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, mae'r ysgol wedi cyflwyno'i ffigurau ar gyfer 2024/2025, gyda diffyg o £175,000 yn y gyllideb. Pan mae ysgol yn rhoi gwybod am ddiffyg yn y gyllideb, mae'n rhaid iddi lunio cynllun gweithredu 3 blynedd a fydd yn adfer y gyllideb i warged. Er bod opsiwn i archwilio hyn dros gyfnod 5 mlynedd gyda chaniatâd gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lleol, hyd yn oed dros gyfnod o 5 mlynedd, nid yw'n bosibl i'r ysgol gyflawni gwarged. | Archwiliwyd pob dewis rhesymol yn lle cau ac archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer amcanol y disgyblion a'r rhagolwg o ddiffyg ariannol o ganlyniad yn peri her sylweddol i allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais gan y Corff Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 i'r Awdurdod Lleol ystyried cau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2025 ac ymgymryd â'r Ymgynghoriad Statudol gofynnol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| **A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9. |
|---|
| Roedd yr Wybodaeth Ategol Ychwanegol a ystyriwyd yn cynnwys:<br>• Cyfrifiad 2021<br>• Arolwg defnydd o'r Gymraeg 2019-2020<br>• Sefyllfa'r Gymraeg- Comisiynydd y Gymraeg<br>• Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth<br>• Adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg<br>• Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol<br>• Data iechyd a'r iaith Gymraeg<br>• Data'r iaith Gymraeg a'r economi |

**9. Ymgynghori**

(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn **Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu.** Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddaru hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.)

| **Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgyngoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.** |
|---|
| Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma |

| |
|---|
| Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.<br><br>**Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Llun 9 Medi 2024**<br><br>Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 neu YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.<br><br>**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Mawrth 22 Hydref 2024**<br>Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.<br><br>Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.<br>Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:<br>o Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor<br>o Cwblhau'r ffurflen ymateb wedi'i hargraffu a'i dychwelyd trwy'r post<br>o Anfonwch eich e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i ein tudalennau gwe Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |

## 10. Monitro ac Adolygu

| | |
|---|---|
| **Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith ac effaith y cynnig eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?** | Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r holl bartïon perthnasol i sicrhau y glynir at brosesau, a bod cymorth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen. |

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?** | Bydd y cyfnod ymgynghori am 42 diwrnod (gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol). darparu amser digonol ar gyfer ystyried ac ymateb a bydd ystyriaeth gydwybodol yn cael ei rhoi i unrhyw ymatebion a ddaw i law.<br><br>Bydd yr egwyddorion ymgysylltu a amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020 yr Awdurdod Lleol hefyd yn cael eu cydnabod a bydd y tîm yn ymgysylltu ag unrhyw 'bartïon â diddordeb' ychwanegol yn ôl yr angen, drwy sianeli priodol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu a darparu llwyfan addas ar gyfer y bod ymgyngoreion i leisio eu barn ar gael.<br><br>Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad ymgynghori ynghyd ag unrhyw ymatebion a dderbyniwyd yn cael ei goladu a'i adrodd yn ôl i'r Aelodau, lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig fel yr amlinellwyd a chyhoeddi Hysbysiad Statudol. |
| **Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?** | Unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud ar y cynnig gan y Cabinet, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu fel yr amlinellwyd, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod y pontio'n effeithio cyn lleied â phosibl ar ddisgyblion, staff, teuluoedd a'r gymuned leol. |
| **Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?** | Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r broses ymgynghori yn cael ei chynnal yn unol â'r amserlen ganlynol yn seiliedig ar gymeradwyaeth ar bob cam o'r broses:<br>• Ymgynghoriad yn Agor – 9.9.24<br>• Craffu (fel ymgynghorai) – 15.10.24<br>• Ymgynghoriad yn dod i ben – 22.10.24<br>• Craffu (ystyried yr Adroddiad Ymgynghori a chadarnhau cyhoeddi Hysbysiad Statudol) – 26.11.24<br>• Cabinet (ystyried Adroddiad Ymgynghori a chytuno i gyhoeddi Hysbysiad Statudol) – 11.12.24<br>• Hysbysiad Statudol / Cyfnod Gwrthwynebu yn Agor – 13.1.25<br>• Diwedd y Cyfnod Hysbysiad Statudol / Gwrthwynebu – 10.2.25<br>• Craffu (ystyried Adroddiad Gwrthwynebu) – 11.3.25<br>• Cabinet (gwneud penderfyniad terfynol) – 16.4.25 |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?** | Gofynnir i Aelodau Sgriwtini ac Aelodau Cabinet adolygu'r cynnig a chymeradwyo / gwneud y penderfyniad terfynol a ddylid gweithredu'r cynnig. |

| | |
|---|---|
| | Os caiff ei gymeradwyo, cyfrifoldeb Awdur(on) yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn eu hadran) fydd sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru yn cael eu dilyn a'u gweithredu. |

**11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau**

| | |
|---|---|
| | Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau |
| X | Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd |
| | Gwrthod y cynnig oherwydd ei effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol |

**A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?** Ydw

**12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad**

(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a rheoli lleoedd ysgol a rhaid iddyn nhw sicrhau darpariaeth yn effeithlon er mwyn canolbwyntio adnoddau ar wella. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ei gydnabod.
Yn ogystal, cyfrifoldeb y Cyngor yw adnabod y strategaethau trefniadaeth ysgolion a rheoli asedau hynny sy'n cyfrannu'n fwyaf cadarnhaol at ddeilliannau i ddysgwyr.

Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Rhydri yn gostwng, trefnwyd amryw gyfarfodydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025.

Archwiliwyd pob opsiwn rhesymol yn lle cau:

- Cydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Chwefror 2014)
- Ffedereiddio ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Medi 2019)
- Argymhelliad gan yr Awdurdod Lleol yn gysylltiedig â gostwng nifer y dosbarthiadau o 3 i 2 (heb ei dderbyn)
- Ymgyrch farchnata gan rieni
- Arweiniad Ariannol yn gysylltiedig â chynllun adfer ariannol 3 blynedd i gyflawni cyllideb warged

Yn ogystal, archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu ac a godwyd yn y Cabinet ar 24 Gorffennaf 2024, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, yr opsiwn i ymestyn i gynllun adfer ariannol 5 mlynedd, gyda chaniatâd y Swyddog Adran 151, ac ystyried darpariaeth ADY.

Argymhelliad yr Asesiad Effaith Integredig hwn ac yn unol â'r prosesau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw bod yr Aelodau'n cadarnhau/cymeradwyo'r cynnig:

- Mae'r cynnig yn ymwneud â chau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025, yn dilyn cais i ymgynghori gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol a wnaed yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024.

## 13. Rheoli Fersiynau

(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser)

| Rhif y fersiwn | Awdur | Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad | Dyddiad Diwygio |
|---|---|---|---|
| 1 | Andrea West / Lisa Thomas | Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a nodir yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Dyddiad Cyhoeddi Gwreiddiol: Medi 2024 | Yn amodol ar gymeradwyaeth ar bob cam, ar ôl Hysbysiad Statudol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

**Awdur yr Asesiad Effaith**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Andrea West |
| **Teitl Swydd:** | Siapio Lle a Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |
| **Dyddiad:** | Ebrill 2024 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Lisa Thomas |
| **Teitl Swydd:** | Siapio Lle a Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |
| **Dyddiad:** | Ebrill 2024 |

**Head of Service Approval**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Sue Richards |
| **Teitl Swydd:** | Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg |
| **Dyddiad:** | Mai 2024 |
| **Llofnod:** | *S.Richards* |